Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
Caerffili • Caerphilly
Early Years & Childcare Service

Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Blynyddoedd Cynnar Caerffili

Llwybr Hyfforddiant

2023 - 2028

Cyflwyniad

Mae'r Llwybr Hyfforddiant Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Blynyddoedd Cynnar Caerffili wedi'i ddatblygu er mwyn darparu gwybodaeth a chanllawiau i ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar sy'n gweithio gyda phlant 0–4 oed 11 mis, gan eu galluogi nhw i nodi eu hanghenion hyfforddi a chael mynediad at hyfforddiant perthnasol. Mae'r Llwybr hwn yn rhan o Gynllun Datblygu Gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Caerffili 2024-2026.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut rydyn ni'n bwriadu darparu "Llwybr hyfforddi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cymru Gyfan" Llywodraeth Cymru yn lleol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

Byddwn ni'n cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:

1. Sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd uchel ar gael i ddiwallu anghenion ymarferwyr,
2. Nodi ar gyfer pwy mae'r hyfforddiant hwn fwyaf addas,
3. Darparu gwybodaeth ar sut i gael mynediad at yr hyfforddiant.

Pam rydyn ni'n gwneud hyn?

Rydyn ni'n gwneud hyn er mwyn "sicrhau bod y gweithlu gofal plant a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol yng Nghymru'n dra hyfforddedig ac yn gryf iawn eu cymhelliant fel bod cymorth ar gyfer ILlaCh yn cael ei roi i blant ar yr adeg gywir a bod ymyriadau'n cael eu monitro i sicrhau eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddatblygiad y plentyn." (Siarad gyda fi: Siarad gyda fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, 2020-)

Rydyn ni'n gwybod y canlynol*:*

- Gall dros 50% o blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ddechrau ysgol â sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu cyfyngedig.
- Gwnaeth un o bob pedwar plentyn a gafodd anawsterau iaith yn 5 oed fethu â chyrraedd y safon ddisgwyliedig mewn Saesneg ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd, o gymharu ag un o bob 25 o blant a oedd yn meddu ar sgiliau iaith da yn 5 oed.
- Mae ymchwilwyr wedi canfod bod plant a oedd yn meddu ar sgiliau dieiriau normal ond geirfa wael yn 5 oed unwaith a hanner yn fwy tebygol o fod yn ddarllenwyr gwael neu o gael problemau iechyd meddwl yn 34 oed a mwy na dwywaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na phlant yr oedd eu hiaith yn datblygu'n normal yn 5 oed.
- Geirfa yn 5 oed yw'r ffordd orau o ragweld (o amrywiaeth o fesurau yn 5 a 10 oed) a allai plant a brofodd amddifadedd cymdeithasol yn ystod plentyndod fynd yn groes i'r duedd ac osgoi tlodi yn ddiweddarach mewn bywyd fel oedolion.

(Ffynhonnell: Siarad gyda fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu)

Ein nod

- Ein nod yw "codi ymwybyddiaeth bod iaith, lleferydd a chyfathrebu yn 'fater i bawb', gyda theuluoedd, lleoliadau gofal plant a chymunedau yn chwarae rôl bwysig i gefnogi datblygiad plant". (Ffynhonnell: Siarad gyda fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu)

Hyfforddi

Gall ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant 0–4 oed 11 mis ym Mwrdeistref Sirol Caerffili gael mynediad at hyfforddiant ac, er nad yw hyn yn orfodol, mae Llwybr Hyfforddiant Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Caerffili yn amlinellu'r 'safon aur' ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant ar draws pob sector yn y Fwrdeistref Sirol. Mae cydweithwyr yn nhimau ymwelwyr Iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn chwarae rhan hanfodol wrth nodi anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu yn gynnar. Byddan nhw'n dilyn eu llwybrau datblygu gweithlu eu hunain i fynd i'r afael â'u hanghenion hyfforddi.

Nod y llwybr hwn yw creu gweithlu hynod hyfforddedig, medrus ac yn llawn cymhelliant i gynorthwyo pob plentyn i gael y dechrau gorau mewn bywyd. Mae gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnwys staff yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Yn ogystal â'r hyfforddiant wedi'i nodi isod, bydd sesiynau codi ymwybyddiaeth 'Siarad gyda Fi' ar gael i grwpiau yn ein cymunedau.

Mae'r cynllun hwn wedi'i rannu'n 3 lefel wahanol o ddatblygu sgiliau:

1. CRAIDD – gan gynnwys 'Sylfaenol' a 'Cyffredinol'
2. UWCH
3. ARBENIGOL

(Llwybr hyfforddi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cymru Gyfan; Llywodraeth Cymru Mehefin 2021)

Mae'r llwybr hyfforddi yn galluogi ymarferwyr i nodi'n glir pa hyfforddiant sydd ei angen arnyn nhw, sut i gael mynediad ato, a pha gyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ymhellach.

Mae'r hyfforddiant sydd ar gael yn gymysgedd o e-ddysgu, rhithwir a hyfforddiant personol gyda chyrsiau gyda'r nos ac ar y penwythnos ar gael i ddiwallu anghenion y gweithlu. Mae disgwyl y bydd yn cymryd o leiaf 5 mlynedd i gwblhau'r llwybr

presennol hwn, fodd bynnag, wrth i ymchwil ddatblygu, bydd y llwybr yn esblygu i gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus.

Ffocws penodol i ddechrau yw cyflwyno dwy raglen Hanen yn effeithiol, sef Learning Language and Loving It a Teacher Talk, a fydd ar gael ar raglen dreigl.

Sut i gael mynediad at hyfforddiant

Mae'r hyfforddiant ar gael ar Wefan y Blynyddoedd Cynnar. I gael rhagor o wybodaeth a chanllawiau, cysylltwch â Hwb y Blynyddoedd Cynnar a fydd yn gallu rhoi cymorth ac arweiniad pellach.

Craidd

(gan gynnwys y lefelau 'sylfaenol' a 'cyffredinol' o'r Fframwaith)

Sylfaenol:[nodyn4] e.e. rheolwyr, arweinwyr strategol, Swyddogion Arweiniol ADY Blynyddoedd Cynnar[nodyn5]
Cyffredinol[nodyn6]**:** pob ymarferydd gofal plant sy'n gweithio gyda phlant rhwng 0 â 4 blwydd 11 mis

Sylfaenol: ymwybyddiaeth o Leferydd, Iaith a Chyfathrebu ac Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
Cyffredinol: dealltwriaeth sylfaenol o Leferydd, Iaith a Chyfathrebu ac Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

- Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3[nodyn7]
- Cwrs byr yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu[nodyn8]
- Hyfforddiant lefel ragarweiniol[nodyn9]
- Elklan/Hanen craidd[nodyn10]
- Hyfforddiant pwrpasol[nodyn11]

- Offer hunanarfarnu[nodyn12]
- Monitro data cyn ac ar ôl y cwrs[nodyn13]
- Sicrwydd Ansawdd[nodyn14]

CRAIDD - SYLFAENOL

PWY?

- Perchnogion Busnesau Gofal Plant
- Unigolyn Cofrestredig/Person Cofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
- Ymddiriedolwyr/Aelodau'r Pwyllgor
- Rheolwyr y Blynyddoedd Cynnar
- Swyddogion Gofal Plant
- Swyddogion Datblygu Gofal Plant
- Ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar
- Hyfforddeion y Blynyddoedd Cynnar

ARFERION GORAU

- E-ddysgu Elklan
- E-ddysgu'r Ymddiriedolaeth Gyfathrebu
- E-ddysgu Canllawiau'r Tîm Ymyrraeth Cyfathrebu (ComIT)

PAM?

Ar y lefel hon, mae angen i'r rhai wedi'u nodi gael **ymwybyddiaeth** o Leferydd, Iaith a Chyfathrebu ymhlith plant 0 – 4 oed 11 mis oed.

Ar gyfer dysgu pellach, gall yr hyfforddiant canlynol fod o fudd:

Modiwl Hwb - Deall y pum llwybr datblygu ac addysgeg

CRAIDD – CYFFREDINOL

PWY?

- Arweinwyr Gofal Plant
- Dirprwyon Gofal Plant
- Cynorthwywyr Gofal Plant

ARFERION GORAU

- E-ddysgu Canllawiau'r Tîm Ymyrraeth Cyfathrebu (ComIT)
- E-ddysgu Siarad gyda fi.
- E-ddysgu'r Ymddiriedolaeth Gyfathrebu.
- Hyfforddiant Teacher Talk Hanen

Bydd cwblhau cyrsiau ELKLAN yn flaenorol yn cael ei gydnabod ac yn galluogi staff i gyrraedd y lefel hon.

Uwch

(lefel 'uwch' ar y Fframwaith)

- CADY[nodyn15]
- Ymarferydd Cyfathrebu Arweiniol:[nodyn16] arfer gorau byddai i o leiaf un ymarferydd o bob lleoliad gael ei hyfforddi i lefel uwch

- Gwybodaeth ymarferol o Leferydd, Iaith a Chyfathrebu nodweddiadol ac arwyddion o Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
- Dealltwriaeth o sut i gynorthwyo plant nad oes ganddynt ac sydd ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn briodol

- Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 4[nodyn7]
- Elklan/Hanen craidd[nodyn10]
- CFS Elklan[nodyn17]
- Hyfforddiant pwrpasol[nodyn11]

- Fel y nodir uchod
- Gweler What Works[nodyn18] Sefydliad Gwaddol Addysgol[nodyn19] am dystiolaeth o effeithiolrwydd

PAM?

Gwybodaeth ymarferol o Leferydd, Iaith a Chyfathrebu nodweddiadol ac arwyddion o anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu.

UWCH

PWY?

- Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol/Arweinydd Cynhwysiant
- Prif Ymarferydd Cyfathrebu
- Cynghorydd Gofal Plant

ARFERION GORAU

Lefel sylfaenol o hyfforddiant craidd (gweler uchod) yn ogystal â:

- Hyfforddiant Hanen Learning Language and Loving It.

Ar gyfer dysgu pellach, gall yr hyfforddiant canlynol fod o fudd:

Cyd-arwyddo

Arbenigol

Ymarferwyr sy'n arbenigo mewn Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

Bydd angen gwybodaeth fanwl o anghenion y plant y maen nhw'n gweithio gyda nhw ar y sawl sydd â rhan arwyddocaol mewn cefnogi Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

- e.e. – Elklan arbenigol[nodyn20]
- Hyfforddiant pwrpasol[nodyn11]

- Fel y nodir uchod
- Ystyried monitro effeithiolrwydd pecynnau pwrpasol

PAM?

Gwybodaeth fanwl o anghenion y plant y maen nhw'n gweithio gyda nhw a sut i'w cynorthwyo.

ARBENIGOL

PWY?

- Gweithwyr Ymyrraeth Iaith Gynnar,
- Gweithwyr Ymuno a Chwarae,
- Gweithwyr Allgymorth Canolfannau Adnoddau Arbennig.

ARFERION GORAU

Lefel uwch o hyfforddiant (gweler uchod) yn ogystal â:

- To and Fro (Gweithwyr Ymyrraeth Iaith Gynnar)
- Gweithdai grŵp iaith (Gweithwyr Ymyrraeth Iaith Gynnar)
- Gweithdy ymyrraeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu pwrpasol (Gweithwyr Ymyrraeth Iaith Gynnar, Canolfannau Adnoddau Arbennig)
- Rhyngweithio Dwys (Gweithwyr Ymyrraeth Iaith Gynnar, Ymuno a Chwarae, Canolfannau Adnoddau Arbennig)
- Gweithdy Prosesu Iaith Gestalt (Ymuno a Chwarae)
- Gweithdy gweledol (Ymuno a Chwarae)
- ELKLAN Lefel 3 (Canolfannau Adnoddau Arbennig)
- Hyfforddiant ELKLAN Let's Talk i diwtoriaid (Canolfannau Adnoddau Arbennig)

Mynediad at hyfforddiant

Mae hyfforddiant e-ddysgu ar gael trwy'r dolenni sydd wedi'u hymgorffori yn y llwybr hwn.

Gallwch chi gadw lle ar gyfer Hanen Learning Language and Loving It yma: HANEN Learning Language and Loving It - Blynyddoedd Cynnar Caerffili

Gallwch chi gadw lle ar gyfer Hanen - Teacher Talk yma: HANEN - Teacher Talk - Blynyddoedd Cynnar Caerffili

Byddwn ni'n cysylltu'n uniongyrchol â holl Ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar y mae'n ofynnol iddyn nhw ymgymryd â hyfforddiant arbenigol.

Effeithiolrwydd

Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd y **ddwy raglen Hanen**, Learning Language & Loving It a Teacher Talk. Mae'r llwybr hwn yn canolbwyntio'n benodol ar fonitro a gwerthuso effaith y cyrsiau hyn. Rydyn ni'n cofnodi hyder ymarferwyr cyn hyfforddiant ac ar ôl gan ddefnyddio Graddfa Sgorio Ymatebolrwydd Rhieni (PaRRIS) i asesu lefel y newid mewn ymateb.

Rhaid i bob lleoliad Gofal Plant sydd wedi'i gontractio gan Wasanaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Caerffili i ddarparu lleoliadau gofal plant wedi'u hariannu gydymffurfio ag 'Arferion Gorau' fel sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon. Bydd hyn yn cael ei fonitro fel rhan o'u gwiriadau cydymffurfio contract tymhorol (ffurflenni Gweinyddu Cyffredinol Staffio Gwaith Papur). Bydd yr Archwiliad Gweithlu Gofal Plant chwe-misol yn nodi'r niferoedd sy'n ymgymryd â hyfforddiant ar draws y Sector Gofal Plant.

Rydyn ni'n annog ymarferwyr i gwblhau Fframwaith Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu hunan-sgorio blynyddol i sefydlu eu hanghenion hyfforddi eu hunain. Hafan - Fframwaith Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu - Yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu (slcframework.org.uk)

Mae rhagor o adnoddau hunanwerthuso ar-lein ar gael i ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar eu defnyddio fel y bo'n briodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

GEIRFA

CADY – Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

CCPLD – Cymhwyster Gofal PLant, Chwarae, Dysgu, a Datblygu

EYALNLO – Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar

LCP – Prif Ymarferydd Cyfathrebu

TCT – Yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu

SLC – Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

SLCN – Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

TCT – Yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu

Mae Elklan a Hanen yn ddarparwyr hyfforddiant sy'n arbenigo mewn Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu. Maen nhw'n hyfforddi hyfforddwyr i gyflwyno cyrsiau yn lleol yn ôl yr angen.

GEIRDAON

- Llwybr hyfforddi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cymru Gyfan; Llywodraeth Cymru Mehefin 2021
- Fframwaith Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu (2017); Yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu 2017
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (ALNET) Llywodraeth Cymru (2018); Llywodraeth Cymru Tachwedd 2021
- Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru; Llywodraeth Cymru, 2021
- Siarad gyda fi: cynllun Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu 2020; Llywodraeth Cymru, 2020